

Rhaglen Sgiliau Hyblyg

Hyfforddiant Sgiliau Allforio – 2024-25



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Trosolwg

Mae'r rhaglen hon wedi'i chynllunio i ddarparu cymorth ariannol i fusnesau yng Nghymru sy'n dymuno gwella eu gallu i allforio eu cynnyrch a'u gwasanaethau.

Mae'r meysydd hyfforddi a gefnogir wedi eu rhestru yn y tabl isod. Mae cymorth o hyd at 50% o gostau hyfforddi cymwys ar gael (uchafswm cyfraniad £20,000).

Cymhwysedd:

- Mae'r cynllun yn agored i fusnesau (solfent) yng Nghymru.
- Mae'n rhaid i'r hyfforddiant gael ei gynnwys yn un o'r meysydd pwnc a bod yn achrededig neu fodloni safon diwydiant.
- Mae'n rhaid i gwmnïau sy'n ymgeisio ymrwmo i ryddhau staff i ymgymryd â hyfforddiant cymwys cyn diwedd mis Mawrth 2025.
- Gall pob busnes wneud un cais i'r rhaglen hon bob blwyddyn.
- Rhoddir y cyllid yn ôl disgrisiwn a Llywodraeth Cymru fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

Cyfle:

- Bydd cwmnïau y mae eu cais yn llwyddiannus yn cael 50% o gostau hyfforddiant cymwys – bydd y cyllid yn cael ei dalu'n ôlweithredol, ar ôl cwblhau'r hyfforddiant a darparu'r dystiolaeth angenrheidiol. Ni fydd y cyfraniad yn fwy na £20,000.

Y broses:

- Gellir gwneud cais am ffurflen gais drwy'r cyfeiriad e-bost hwn - DFESRM@llyw.cymru. **Ffurflen gais fer iawn yw hon.**
- Bydd y ffurflen yn cael ei hanfon at yr ymgeisydd drwy e-bost, ynghyd â dogfen hunanasesu ategol (sy'n ceisio gwybodaeth am ddull gweithredu'r cwmni a'i ymrwymiad i ddatblygu ei weithwyr). Dylai'r ddwy ddogfen gael eu cwblhau a'u dychwelyd i'r cyfeiriad e-bost.

- Bydd y cais yn cael ei asesu a bydd penderfyniad yn cael ei wneud cyn pen 10 diwrnod gwaith.
- Os caiff ei gymeradwyo, bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn Llythyr Dyfarnu Grant a fydd yn cadarnhau pa gyrsiau sydd wedi'u cymeradwyo a'r cyllid a ddyfarnwyd. Yna, gall yr ymgeiswyr archebu lle i'r staff ar y cyrsiau a gymeradwywyd. **(Sylwch: ni ddylid cychwyn cytundeb â darparwr hyfforddiant hyd nes y ceir cadarnhad bod y cais wedi'i gymeradwyo).**
- Mae'r ymgeiswyr yn rhydd i ddewis unrhyw ddarparwr/darparwyr hyfforddiant ardystiedig.
- Caiff y cyllid ei dalu'n ôl-weithredol. Unwaith y bydd unigolion wedi cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus (rhaid dangos hynny ar ffurf tystysgrif arholiad neu gadarnhad gan y darparwr hyfforddiant), bydd yr ymgeiswyr yn gallu hawlio'n ôl 50% o gost yr hyfforddiant / cwrs (nid yw'r costau yn cynnwys teithio a chynhaliath na TAW).

Meysydd Hyfforddiant a Gymeradwywyd Ymlaen Llaw		
Cyfeirnod	Pynciau Hyfforddiant	Engbreiffiau
1	Dechreuwyr	Cyflwyniad i allforio, Cyflwyniad i'r proses allforio, Cyflwyniad i Incoterms®
2	Cyllid	Dulliau talu, TAW, prisio nwyddau, masnach a chyllid rhyngwladol.
3	Gwerthu a Marchnata	Marchnata rhyngwladol, datblygu gwerthiant tramor, llwybrau i'r farchnad, dewis asiantau a dosbarthwyr, e-fasnach.
4	Y Prosesau a'r Gweithdrefnau o ran Tollau	INCOTERM, dogfennaeth, dosbarthiad nwyddau, gweithdrefnau mewnfario, cyfraddau ffafraethol, rheolau tarddiad, rhyddhad tollau, trin nwyddau peryglus.
5	Prosesau Allforio	Gweithredwr economaidd awdurdodedig, trwyddedau allforio, cyflwyniad i allforio, deall allforio, hanfodion allforio.
6	Ymwybyddiaeth o'r Farchnad	Cynnal busnes mewn marchnad, e.e. Ffrainc, Tsieina neu'r Emiraethau Arabaidd Unedig, Allforion Gwyddor Bywyd yn UDA, diwylliant busnes.
7	Allforio Arbenigol	Rheoli risg, diogelu eiddo deallusol, rheoli risg o ran arian cyfred.
Yn ogystal â'r uchod:		

8	Arweinyddiaeth a Rheoli*	Cynllunio; cyfathrebu; gwneud penderfyniadau; dirprwyo; datrys problemau; ysgogi staff; meithrin tîm; sgiliau rhyngbersonol; rheoli prosiectau; rheoli straen; negodi; rheoli ymddygiad; rheoli cadwyni cyflenwi
---	--------------------------	--

** Gall hyfforddiant Arweinyddiaeth a Rheoli ffurfio rhan o gais ond rhaid ei gyfyngu i 25% o'r grant y gwneir cais amdano, hyd at uchafswm o £5,000.*

Bydd tîm Datblygu allforion Llywodraeth Cymru yn hapus i gynnig cyngor a thrafod eich gofynion, os ydych yn ei chael yn anodd dod o hyd i ddarparwyr hyfforddi addas.

Gellir gweld trosolwg o'r holl feysydd a gefnogir o dan y Rhaglen Sgiliau Hyblyg ar [Borth Sgiliau Busnes Cymru](#).